**Pwyllgor Busnes** **BC167-01 (terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 15 Mai 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Trefnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Marion Stapleton, Ysgrifenyddes Breifat y Trefnydd
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dim

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC 145-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf terfynol. Yn amodol ar un diwygiad teipio bach, cytunwyd y byddent yn cael eu cyfieithu i fod yn barod i gael eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC 155-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd copi drafft o'r cofnodion i'r Pwyllgor. Awgrymwyd rhai diwygiadau a fyddai'n cael eu hymgorffori i'r fersiwn derfynol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.1** – Dywedodd Marie Knox fod y trefniadau ar y gweill bellach i gynnal cyfarfod llawn ychwanegol ddydd Mercher 27 Mehefin oherwydd i'r Etholiad Cyffredinol gael ei gynnal ar 7 Mehefin. Roedd hi'n debygol y byddai'r

Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor y Tŷ bellach yn cyfarfod ddydd Iau 28 Mehefin.

3.2 **Paragraff 3.3** – Nododd y Cadeirydd ei fod wedi hysbysu Panel y Cadeiryddion o'r trefniadau ar gyfer Gweinidogion sy'n tynnu sylw pwyllgorau pwnc at ddeddfwriaeth ddrafft. Byddai'r Panel yn trafod y gweithdrefnau perthnasol yn fanylach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

3.3 **Paragraff 4.2** – Gofynnodd y Trefnydd pam y bu oedi cyn dod i benderfyniad ar yr Archwiliad o Reoliadau Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001. Teimlai hefyd y dylid fod wedi hysbysu'r Rheolwyr Busnes eraill, o ran cwrteisi, o ganlyniad y penderfyniad. Nododd fod y Dirprwy Lywydd blaenorol wedi adlewyrchu barn y Pwyllgor wrth wneud ei phenderfyniadau. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo na chafodd y penderfyniad ei argymell yn gadarn yn y cyfarfod diwethaf. Deallwyd o'r cyfarfod hwnnw nad oedd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, o bosibl, yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran y Gorchymyn a'i fod felly wedi ceisio ei gyngor cyn gwneud ei benderfyniad. Deallodd fod swyddogion Swyddfa'r Llywydd wedi hysbysu'r Uned Fusnes am ei benderfyniad i anfon y Gorchymyn i'r pwyllgor ar unwaith ac mewn da bryd, er mwyn i'r Gweinidog gyhoeddi'r penderfyniad yn ei Ddatganiad Busnes yng Nghyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw.

3.4 Dywedodd Jocelyn Davies y byddent wedi gallu osgoi oedi cyn gwneud y penderfyniad, pe bai'r Gorchymyn wedi cyrraedd y Pwyllgor Busnes yn gynharach. Byddai wedi bod yn well ganddi pe bai'r Gorchymyn wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor ond hysbyswyd y Pwyllgor y byddai hyn wedi bod yn anodd oherwydd y cyfyngiadau amser ar wneud gorchymyn ac oherwydd agenda lawn y pwyllgor pwnc. Dywedodd Marie Knox fod clercod y pwyllgorau pwnc yn derbyn llawer o ymholiadau o ran agendâu, ond bod yn rhaid i geisiadau ffurfiol gael eu cyflwyno i'r Cadeirydd. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gofyn i Banel y Cadeiryddion gynghori'r Pwyllgor Busnes ar y weithdrefn fwyaf addas ar gyfer ymgynghori â phwyllgorau ar Orchmynion a phenderfyniadau tebyg. Nododd Trefnydd y Cynulliad y byddai'r materion hyn yn llai pwysig pan fyddai'r Gweinidogion yn gallu cyflwyno rhaglen ddeddfwriaeth ddrafft i'w pwyllgorau pwnc. **Gweithredu: Cadeirydd i godi hyn ymhlith Panel y Cadeiryddion ac adrodd yn ôl**

## <u>4. Is-ddeddfwriaeth</u>

**<u>Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 (BC134-01 wedi'i anfon i'r Pwyllgor Busnes ar gyfer cyfarfod 1 Mai)</u>**

4.1 Dywedodd Nerys Arch fod y Cwnsler sy'n gyfrifol am ddrafftio'r gorchymyn uchod wedi'i hysbysu fod rhanbarthau Sir Gaerfyrddin a Gwynedd wedi cael eu heithrio o'r "Rhanbarthau Penodedig" y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn. Byddai amgáu memorandwm o gywiriadau gyda'r Gorchymyn yn sicrhau y caiff y rhanbarthau hyn eu cynnwys. Gofynnodd y Cadeirydd pam na allai'r

“Rhanbarthau Penodedig” olygu Cymru gyfan.  Dywedodd Nerys Arch y cafodd y rhanbarthau cynhyrchu gwin eu diffinio yn y Gorchymyn yn ôl ffiniau’r awdurdodau lleol.

**Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgol) (Cymru) 2001 (BC151-01 wedi’i anfon at y Pwyllgor Busnes ar gyfer cyfarfod 8 Mai)**

4.2 Dywedodd Nerys Arch ei bod wedi hysbysu’r Cwnsler Cyffredinol Cynorthwyol o bryder y Cadeirydd ynghylch sut oedd y rhain a rheoliadau tebyg wedi cael eu gosod allan.  Byddai ef yn trosglwyddo safbwyntiau’r Cadeirydd i’r Cwnsler Cyffredinol.  Eglurodd fod llawer o’r Gorchmynion yn cael eu hail-argraffu â’r diwygiadau wedi’u hymgorffori.  Fodd bynnag, roedd rhai achosion lle nad oedd yn bosibl ailddrafftio Gorchmynion maith (120 o dudalennau yn yr achos hwn) o fewn yr amser a roddwyd oherwydd diffyg adnoddau, i gyfieithu’r ddogfen derfynol i’r Gymraeg yn bennaf.  Dywedodd y Cadeirydd y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol anelu at gyhoeddi deddfwriaeth y gall pobl gyffredin ei deall yn syth, yn arbennig pan fo’r ddeddfwriaeth, fel yn yr achos hwn, o bwys i athrawon a llywodraethwyr ysgol.  Gofynnodd a oedd yn bosibl i’r diwygiadau gael eu hymgorffori i’r Rheoliadau gwreiddiol ac i’r ddogfen gael ei rhoi ar y Rhyngrwyd.  Byddai Nerys Arch yn ymchwilio i weld a fyddai hyn yn bosibl.
**Gweithredu:  Nerys Arch i adrodd yn ôl yr wythnos nesaf.**

**Rheoliadau Rhestr Drethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2001**

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC157-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar ymdrin â’r Gorchymyn uchod.  Dywedodd aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â’r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a’u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.
**O ganlyniad, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio’r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Gorchymyn Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2001**

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC158-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â’r Gorchymyn uchod.  Dywedodd aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â’r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a’u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.
**O ganlyniad, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio’r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001**

4.5  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC159-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod.  Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.
**O ganlyniad, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) (Cymru) 2001</u>**

4.6  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC160-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod.  Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes  wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.
**O ganlyniad, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**<u>Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001</u>**

4.7  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC161-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.
**O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

4.8  Gofynnodd y Cadeirydd pam na chafodd y Gorchymyn ei roi ar y Fewnrwyd cyn 10 Mai.  Dywedodd Marion Stapleton y byddai'n ymchwilio ac yn adrodd yn ôl yr wythnos nesaf.  **Gweithredu: Marion Stapleton i adrodd yn ôl am y ffaith bod y Gorchymyn yn hwyr yn cael ei roi ar y Fewnrwyd.**

## <u>5.   Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau</u>

**Cyflwyno Busnes yn Ystod Toriad y Sulgwyn**

5.1  Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes yn ystod Toriad y Sulgwyn fel y nodwyd ym mhapur BC165-01.

**Ystyried Deisebau a Anfonwyd at y Cynulliad**

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC166-01 a oedd yn cynnig gweithdrefn i alluogi'r Cynulliad i drafod deisebau. Dywedodd Jocelyn Davies fod deisebau'n cael eu hanfon at Aelodau unigol o'r Cynulliad yn ogystal ag i'r Cynulliad yn gyffredinol ac na cheir unrhyw fecanwaith ffurfiol i ystyried a fyddent yn cael eu trafod ai peidio. Awgrymodd y dylid cyfeirio'r mater at bwyllgor Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad.

5.3 Dywedodd y Trefnydd fod canllawiau ar ddeisebu wedi cael eu cyhoeddi gan Swyddfa'r Llywydd ar y cyd gyda'r Pwyllgor Busnes. Dywedodd Andrew George fod gan Swyddfa'r Llywydd rôl i'w chwarae yn y broses o gyhoeddi deisebau trwy gyfrwng y Pleidleisiau a'r Trafodion a chynnal rhestr o ddeisebau ar y Fewnrwyd. Fodd bynnag diben y papur oedd mynd ymhellach na'r canllaw a chynnig mecanwaith a fyddai'n galluogi'r Aelodau i gyflwyno deisebau i gael eu trafod. Cytunodd y Cadeirydd mai grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad oedd y fforwm cywir ar gyfer trafod y mater hwn. Gofynnodd a ellid ail-ystyried y canllaw presennol a'i gyfeirio, drwy gyfrwng ef ei hun, at y grwp hwnnw. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i ail-gyhoeddi'r canllaw a'r Dirprwy Lywydd i'w gyfeirio at grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer cael ei drafod.**

**Tynnu Cwestiynau'r Cynulliad yn Ôl ar y Funud Olaf**

5.4 Mynegodd y Trefnydd ei bryderon ynghylch tynnu cwestiynau llafar i Weinidogion yn ôl y funud olaf, pan roedd hi'n amlwg na fyddai digon o amser i'w hateb yn y Cyfarfod Llawn. Roedd swyddogion yn gwastraffu amser yn paratoi atebion i'r cwestiynau hynny. Apeliodd ar y Rheolwyr Busnes i ofyn i'r Aelodau yn eu Grwp dynnu cwestiynau yn ôl cyn gynted â phosibl ar ôl y cymysgiad. Awgrymodd Jocelyn Davies y dylid rhoi blwch ticio ychwanegol ar y ffurflen gyflwyno i ddangos p'un a yw'r Aelod am dynnu'r cwestiwn yn ôl ai peidio. Cytunwyd y byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn rhoi'r newid hwn ar waith ar ôl y Toriad. **Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i'r Swyddfa Gyflwyno weithredu'r newid hwn**

## 6. Pwyllgorau

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor gais i gynnal cyfarfod ychwanegol o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (BC 162-01) a chytunodd arno.

## 7. Busnes y dyfodol

**Busnes yr wythnos hon**

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC163-01, a oedd yn rhoi manylion busnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos. Dywedodd y Trefnydd na fyddai

datganiad yn cael ei wneud ar sefyllfa Clwy'r Traed a'r Genau yr wythnos hon, fel y nodwyd yn natganiad y Gweinidog dros Faterion Gwledig yr wythnos diwethaf. Dywedodd William Graham fod ei grwp wedi gwrthwynebu'r penderfyniad yn ystod datganiad yr wythnos diwethaf a gofynnodd a allai'r Trefnydd ofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ail-ystyried ei benderfyniad. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n trosglwyddo'r cais ymlaen. Gofynnodd William Graham i'r Trefnydd hefyd a fyddai datganiad yn cael ei wneud ar sefyllfa'r Dirprwy Lywydd o ran CBAC. Dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw beth wedi cael ei drefnu.

7.2 Ni ragwelwyd unrhyw ddatganiadau ar gyfer sesiwn dydd Iau o'r cyfarfod llawn. Cyfeiriodd Marie Knox at y drafodaeth ar flaen-raglenni gwaith y pwyllgorau ac adroddiadau RhS 9.9 a dywedodd y byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn y mesur ddydd Iau ac nid y prynhawn hwnnw fel y nodwyd yn y papur blaenorol ar y mater hwn. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n cynnig y cynnig yn ffurfiol ond na fyddai'r Weinyddiaeth yn ymateb i'r ddadl. Dywedodd Marie Knox bod Panel y Cadeiryddion o'r farn y dylai'r ddadl hon fod yn seiliedig ar faterion cyffredinol er mwyn arbed amser, a gofynnodd i'r Rheolwyr Busnes drosglwyddo'r apêl hwn i Aelodau eu grwpiau.
**Gweithredu: Rheolwyr Busnes i godi'r mater yn y cyfarfodydd grwp**

7.3 Mynegodd y Trefnydd ei siom fod Plaid Cymru wedi cyflwyno cynnig i gynnal dadl plaid leiafrifol a oedd yn ei farn ef yn gysylltiedig â'r Etholiad Cyffredinol, er gwaetha'r datganiad a wnaethpwyd gan y Llywydd na ddylai unrhyw ymgyrchu etholiadol ddigwydd yn y Cynulliad Cenedlaethol. Dywedodd Jocelyn Davies fod y cynnig yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i Gymru a'r Cynulliad Cenedlaethol a bod ei Phlaid wedi cyflwyno cynigion tebyg yn y gorffennol.

7.4 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC164-01).

**<u>Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau yn cychwyn ar Fai 22, a Mehefin 5 a 12</u>**

7.5 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig am fusnes y Cynulliad yn ystod yr wythnosau yn dechrau ar 22 Mai, a 5 a 12 Mehefin, oedd y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft.

7.6 Dywedodd y Trefnydd, er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, y byddai'r cwestiynau llafar i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (ar gyllid) a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn cael eu gofyn ar 5 Mehefin oherwydd i gyfarfod llawn 7 Mehefin gael ei ohirio.

## <u>8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn</u>

Dim

## <u>9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog</u>

Dim

**<u>10. Penderfyniadau’r Llywydd</u>**

Dim.

**<u>11. Unrhyw fater arall</u>**

Dim

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**